



**Tystysgrif Sylfaen mewn Cymraeg Ail Iaith:
Defnyddio'r Gymraeg**

14 Mehefin 2019

14 June 2019

Darllen a Llenwi Bylchau

Reading and Gap-filling

Hyd y prawf: 40 munud

Duration of test: 40 minutes

Rhif y Cwestiwn	Arholwr yn unig
1.	
2.	
3.	
Cyfanswm:	

Mae'n bosib ennill hyd at 60 marc yn y prawf hwn.

It's possible to be awarded up to 60 marks in this test.

Enw a rhif y ganolfan:

Name and number of centre: _____

Enw'r ymgeisydd:

Candidate's name: _____

Rhif arholiad yr ymgeisydd:

Candidate's examination number: _____

Peidiwch ag agor y llyfr hwn nes i'r trefnydd roi caniatâd.

Do not open this book until given permission by the organiser.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

No certificate will be awarded to a candidate detected in any unfair practice during the examination.

Mae 3 chwestiwn yn y prawf hwn. Atebwch y tri ar y papur hwn yn Gymraeg.

There are 3 questions in this test. Answer all three on this paper in Welsh.

Mae fersiwn De a Gogledd Cymru o'r erthygl – rhaid i chi ddewis **un** o'r ddau.

*There are South and North Wales versions of the article – you must choose **either** one **or** the other.*

1. **Erthygl** *Article*

Fersiwn y De *South Wales Version*

Hanes Juri

Pan ddaeth Juri Tayama i Brifysgol Bangor i astudio Busnes, doedd e ddim yn gwybod dim byd am Gymru, a doedd dim syniad gyda fe o gwbl fod pobl yn siarad Cymraeg.

Roedd e wedi bod yng Nghaerdydd am un bore pan aeth e ar wyliau gyda'i rieni o gwmpas Ewrop, ond dim ond tair oed oedd e ar y pryd, felly doedd e ddim yn cofio hynny o gwbl. Roedd cyrraedd Bangor yn 2010 yn dipyn o sioc iddo fe, felly. Cafodd e ei fagu yng nghanol dinas brysur Tokyo, yr hena o saith o blant. Ar ôl y daith fawr o gwmpas Ewrop, aeth ei rieni e ddim ar wyliau gyda'r teulu o gwbl wedyn. Pan ddaeth Juri i Fangor, felly, dyna'r tro cynta iddo fe weld mynyddoedd a môr. Roedd e wrth ei fodd. Dechreuodd e nofio yn y môr bob dydd a beicio neu redeg yn y mynyddoedd bob penwythnos a dechrau cymryd rhan mewn cystadlaethau triathlon. Enillodd e Triathlon Cymru am y tro cynta yn 2011 ac eto'r llynedd. Mae e'n gobeithio ennill y fedal gynta erioed i Siapan yn y triathlon yn y Gemau Olympaidd nesa.

Y sioc fawr arall i Juri oedd yr iaith Gymraeg. Roedd e wedi dysgu siarad Saesneg yn rhugl mewn dosbarth nos yn Tokyo, ond pan gaeth e le i fyw mewn fflat ym Mangor gyda thair merch o dde Cymru oedd yn siarad Cymraeg, doedd e ddim yn clywed Saesneg o gwbl! Roedd e eisiau mynd i ddosbarth Cymraeg neu wneud cwrs ar y we, ond doedd dim amser gyda fe achos ei waith coleg. Ond achos ei fod e'n clywed Cymraeg drwy'r amser yn y tŷ, roedd e'n deall mwy a mwy bob dydd. Erbyn hyn, mae e'n siarad Cymraeg yn rhugl heb fod ar gwrs o gwbl, ac mae tipyn o acen Llanelli gyda fe hefyd!

Mae Juri wedi gorffen ei gwrs yn y Brifysgol nawr, ond dyw e ddim eisiau mynd yn ôl i Siapan eto. Ar hyn o bryd, mae e'n dysgu dosbarthiadau karate a jiudo bob nos ym Mangor ac Ynys Môn, ac mae e'n dysgu bron pob dosbarth yn Gymraeg! Bydd ei fisa e'n dod i ben ddiwedd mis Awst, felly dyw e ddim yn gwybod eto beth fydd yn digwydd wedyn. Mae e'n gobeithio'n fawr y bydd e'n cael aros yng Nghymru am flwyddyn arall, ac ennill Triathlon Cymru eto'r flwyddyn nesa, wrth gwrs!

Cwestiynau
Questions

[20]

Dewiswch yr ateb cywir, gan nodi llythyren y dewis cywir yn y blwch.
Mae 4 marc am bob ateb cywir.

*Choose the correct answer, noting the letter of the correct option in the box.
There are 4 marks for each correct answer.*

1. Pam daeth Juri i Gymru gynta?
a. ar wyliau
b. i fynd i'r Brifysgol
c. i gymryd rhan mewn triathlon
ch. i ddysgu Cymraeg ☐
2. Gaeth Juri ei fagu... / Cafodd Juri ei fagu...
a. ar lan y môr
b. yn y mynyddoedd
c. mewn dinas
ch. mewn cartref plant ☐
3. Sawl gwaith mae Juri wedi ennill Triathlon Cymru?
a. unwaith
b. dwywaith
c. tair gwaith
ch. pedair gwaith ☐
4. Dysgodd Juri Gymraeg...
a. ar y we
b. mewn dosbarth nos
c. yn y coleg
ch. trwy wrando ar bobl yn siarad ☐
5. Ble mae Juri'n defnyddio ei Gymraeg ar hyn o bryd?
a. ar y cwrs Busnes
b. yn ei waith fel tiwtor
c. yn Llanelli
ch. yn Siapan ☐

1. **Erthygl** *Article*

Fersiwn y Gogledd *North Wales Version*

Hanes Juri

Pan wnaeth Juri Tayama ddwâd i Brifysgol Bangor i astudio Busnes, doedd o ddim yn gwybod dim byd am Gymru, a doedd gynno fo ddim syniad o gwbl bod pobl yn siarad Cymraeg.

Roedd o wedi bod yng Nghaerdydd am un bore pan wnaeth o fynd ar wyliau efo ei rieni o gwmpas Ewrop, ond dim ond tair oed oedd o ar y pryd, felly doedd o ddim yn cofio hynny o gwbl. Roedd cyrraedd Bangor yn 2010 yn dipyn o sioc iddo fo, felly. Mi gaeth o ei fagu yng nghanol dinas brysur Tokyo, yr hyna o saith o blant. Ar ôl y daith fawr o gwmpas Ewrop, wnaeth ei rieni fo ddim mynd ar wyliau efo'r teulu o gwbl wedyn. Pan ddaeth Juri i Fangor, felly, dyna'r tro cynta iddo fo weld mynyddoedd a môr. Roedd o wrth ei fodd. Mi wnaeth o ddechrau nofio yn y môr bob dydd a beicio neu redeg yn y mynyddoedd bob penwythnos a dechrau cymryd rhan mewn cystadlaethau triathlon. Mi wnaeth o ennill Triathlon Cymru am y tro cynta yn 2011 ac eto llynedd. Mae o'n gobeithio ennill y fedal gynta erioed i Siapan yn y triathlon yn y Gemau Olympaidd nesa.

Y sioc fawr arall i Juri oedd yr iaith Gymraeg. Roedd o wedi dysgu siarad Saesneg yn rhugl mewn dosbarth nos yn Tokyo, ond pan gaeth o le i fyw mewn fflat ym Mangor efo tair merch o dde Cymru oedd yn siarad Cymraeg, doedd o ddim yn clywed Saesneg o gwbl! Roedd o isio mynd i ddosbarth Cymraeg neu wneud cwrs ar y we, ond doedd gynno fo ddim amser o achos ei waith coleg. Ond achos fod o'n clywed Cymraeg drwy'r amser yn y tŷ, roedd o'n dallt mwy a mwy bob dydd. Erbyn hyn, mae o'n siarad Cymraeg yn rhugl heb fod ar gwrs o gwbl, ac mae gynno fo dipyn o acen Llanelli hefyd!

Mae Juri wedi gorffen ei gwrs yn y Brifysgol rŵan, ond dydy o ddim isio mynd yn ôl i Siapan eto. Ar hyn o bryd, mae o'n dysgu dosbarthiadau karate a jiudo bob nos ym Mangor ac Ynys Môn, ac mae o'n dysgu bron pob dosbarth yn Gymraeg! Mi fydd ei fisa fo'n dod i ben ddiwedd mis Awst, felly dydy o ddim yn gwybod eto be' fydd yn digwydd wedyn. Mae o'n gobeithio'n fawr y bydd o'n cael aros yng Nghymru am flwyddyn arall, ac ennill Triathlon Cymru eto'r flwyddyn nesa, wrth gwrs!

Cwestiynau
Questions

[20]

Dewiswch yr ateb cywir, gan nodi llythyren y dewis cywir yn y blwch.
Mae 4 marc am bob ateb cywir.

*Choose the correct answer, noting the letter of the correct option in the box.
There are 4 marks for each correct answer.*

1. Pam wnaeth Juri ddôad i Gymru gynta?
a. ar wyliau
b. i fynd i'r Brifysgol
c. i gymryd rhan mewn triathlon
ch. i ddysgu Cymraeg ☐
2. Mi gaeth Juri ei fagu...
a. ar lan y môr
b. yn y mynyddoedd
c. mewn dinas
ch. mewn cartref plant ☐
3. Faint o weithiau mae Juri wedi ennill Triathlon Cymru?
a. unwaith
b. dwywaith
c. tair gwaith
ch. pedair gwaith ☐
4. Mi wnaeth Juri ddysgu Cymraeg...
a. ar y we
b. mewn dosbarth nos
c. yn y coleg
ch. trwy wrando ar bobl yn siarad ☐
5. Lle mae Juri'n defnyddio ei Gymraeg ar hyn o bryd?
a. ar y cwrs Busnes
b. yn ei waith fel tiwtor
c. yn Llanelli
ch. yn Siapan ☐

2. **Hysbysiadau**
Notices

[20]

Sganiwch yr hysbysiadau yma i gael atebion i'r cwestiynau ar y dudalen nesa.
Scan these notices to find answers to the questions on the next page.

Gŵyl Ffilmiau Sinema'r Cwm – Beth sy ymlaen?

O'r Afon i'r Mynydd

Ffilm am fywyd y Cymro o'r
Wyddgrug, Tom Williams.

Fe oedd y cynta i gerdded
ar draws yr Antarctig.

Addas i'r teulu i gyd.

Hyd y ffilm: 2 awr a hanner
Dechrau 7.30pm
Pris: £6.50

Yn ôl papur newydd *Y Faner*:
"Gwych, 4 seren".

Dynion Drwg Dolgellau

Pam cafodd y merched eu lladd?
Fydd yr heddlu'n dal y dynion drwg?

Dewch i weld y ffilm gyffrous yma.

Ddim yn addas i blant dan 15.

Hyd y ffilm: 3 awr
Dechrau 7.30pm
Pris: £4.50

Yn ôl papur newydd *Y Faner*:
"Gweddol, 2 seren".

Y Postmon Diog

Ffilm gomedi mae rhieni a phlant yn
gallu ei mwynhau!

Hanes y postmon o Lithwania.

Hyd y ffilm: 1 awr a hanner
Dechrau 7.30pm
Pris: £4.50

Yn ôl papur newydd *Y Faner*:
"Gweddol, 2 seren".

Caradog y Camel Trist

Ffilm gartŵn addas i blant
o bob oed.

Beth sy'n bod ar Caradog y Camel?
Sut bydd ei ffrindiau'n ei helpu?

Hyd y ffilm: 1 awr
Dechrau 2.30pm
Pris: £2.50

Yn ôl papur newydd *Y Faner*:
"Da, 3 seren".

Cwestiynau

Atebwch y cwestiynau yn Gymraeg. Does dim rhaid defnyddio brawddegau a fyddwch chi ddim yn colli marciau am gamgymeriadau sillafu. Mae 4 marc am bob ateb cywir.

Answer the questions in Welsh. You do not need to use sentences and you will not lose marks for spelling mistakes. There are 4 marks for each correct answer.

1. Pa ffilm dych chi **ddim** yn gallu/medru mynd i'w gweld yn y nos?

2. **Pam** dych chi ddim yn gallu/medru mynd â'r plant i weld pob ffilm?

3. Pa un yw/ydy'r ffilm hira?

4. Pa un yw/ydy'r ffilm ddruta?

5. Yn ôl papur *Y Faner*, pa ffilm yw/ydy'r un orau?

trosodd/over

3. **Llenwch y bylchau yn y brawddegau yma:** [20]
Fill in the gaps in these sentences:

1. Beth oedd enw ei _____ (tad) hi?
2. _____ (gwneud) y plant ddim byd neithiwr.
3. Mae e/o'n mynd ar wyliau ar ei ben ei _____ .
4. _____ wyt ti'n mynd i'r dafarn? I weld ffrind.
5. Dw i'n _____ (tal) na fy mrawd i.
6. John oedd y cyntaf i gyrraedd, a fi oedd yr _____ (2).
7. Dw i'n mynd i siarad _____ 'r tiwtor.
8. Rhaid _____ nhw weithio bob dydd.
9. _____ (troi) i'r dde, pan welwch chi'r banc.
10. Dw i'n byw yma ers _____ (3) blynedd.